CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 27 MEHEFIN 2018

Y Maer, y Cyng Emlyn Schiavone, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 27ain o Fehefin 2018 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Ken Lloyd, Wyn Thomas , Barry Williams, Emlyn Schiavone, Miriam Moules, Gareth John, Peter Hughes Griffiths, Jeff Thomas, Dr Matthew Thomas, Phil Grice, Dr Baba Gana, Alun Lenny a'r Parchg Tom Defis.

Mr Alun Harries - Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Llinos Jenkins - Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau

Agorwyd y cyfarfod gyda chyflwyniad gan Mr William Hunter o Streamline Leisure ynglŷn â chynnal digwyddiad 'Winter Wonderland' ym Mharc Caerfyrddin yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

69. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Angharad Jones Leefe, Dr Ioan Matthews ac Arwel Lloyd.

70. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

71. Cwestiynau

Dim cwestiynau i'w hadrodd.

72. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mai 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Ken Lloyd, a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Cytunodd pawb.

73. Materion yn Codi

Dim.

74. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Gohiriedig a gynhaliwyd ar 30 Mai 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules, a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod Blynyddol Gohiriedig y Cyngor yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Cytunodd pawb.

75. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

76. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 30 Mai 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Barry Williams, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules, a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Cytunodd pawb

77. Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

78. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Barry Williams, a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Cytunodd pawb - yn amodol ar y mater a ganlyn -

Nid oedd y Cyng Dr Matthew Thomas yng nghyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

79. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill yn codi -

Tudalen 18: 43 - Cynllun Iaith Gymraeg

Tudalen 18: 45 - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR)

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr argymhellion.

Yn dilyn trafodaeth hir ynghylch y digwyddiad arfaethedig 'Winter Wonderland' fe gynigiwyd gan y Cyng Gareth John, eiliwyd gan y Cyng Phil Grice, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai'r Cyngor caniatáu i'r digwyddiad gael ei gynnal ym Mharc Caerfyrddin ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan Mr William Hunter yn ystod ei gyflwyniad i'r Cyngor. Nodwyd nad oedd hyn yn newid y polisi cyffredinol o ran gwerthu/cyflenwi alcohol ym Mharc Caerfyrddin, a dylai pob cais gael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried fesul achos.

80. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Ken Lloyd, a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Cytunodd pawb.

81. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion yn codi

Dim

82. Is-bwyllgor Ysbyty Glangwili

Rhoddodd y Cyng Alun Lenny drosolwg o waith yr is-bwyllgor a ranodd adroddiad ar y mater. Ar ôl trafodaeth hir, cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules a **CHYTUNWYD** gan bleidlais fwyafrifol y dylai'r adroddiad gael ei ddosbarthu i'r wasg a'r cyhoedd, fel cynrychioliad o safbwynt y Cyngor ar y sefyllfa yma.

Dosbarthodd y Cyng Barry Williams holiadur gan BIP Hywel Dda ac anogodd Cynghorwyr i'w cwblhau a'u dychwelyd erbyn y dyddiad cau ar y 12fed o Orffennaf Tanlinellodd y Cyng Williams y byddai'r holiaduron yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr adolygiad cyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru.

83. Adroddiad Clerc y Dref
(a) Cynllunio

W/37373 – 15 Lôn Hir, Caerfyrddin. SA31 1SL – Dim Gwrthwynebiad

W/37393 – Hafodwen, Heol Llansteffan, Caerfyrddin. SA31 3QU – Dim Gwrthwynebiad

W/37426 – Bethel Christian Centre, Tre Ioan, Caerfyrddin. SA31 3JF – Dim Gwrthwynebiad

W/37438 – 34 Lô Pisgwydd, Caerfyrddin. SA31 1SN – Dim Gwrthwynebiad

(b) Priffyrdd

Newid cyfyngiadau cyflymder Traveller's Rest - **Cefnogwyd**

(**c) Trwyddedu**

Dim

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffith, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr ymatebion fel y nodwyd uchod.

84. ‘Winter Wonderland’

Penderfynwyd dan eitem 79.

85. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

86. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

NODWYD adroddiadau’r Cynghorwyr.

87. Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

Heb ei gynnig.

88. Materion yn Codi

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45 yr hwyr